Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i fusnesau bach

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i fusnesau bach

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu ffynonellau cymorth posibl sydd ar gael i fusnesau bach newydd a phresennol yng Nghymru, ac yn dangos sut i gysylltu â nhw.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Contents

**1. Cymorth Llywodraeth Cymru ... 11**

Busnes Cymru ... 11

Rhaglen Cyflymu Twf ... 11

Syniadau Mawr Cymru ... 12

Rhaglen Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes ... 12

Parth Allforio ... 12

Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Bwyd a Diod ... 13

Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct+) ... 13

Cymorth Arloesi Hyblyg (FIS) SMART ... 14

Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru ... 14

Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc ... 14

Cymru Greadigol ... 15

Banc Datblygu Cymru ... 15

Rhaglen Gwella Cynhyrchiant Busnes y Cymoedd Technoleg ... 16

Rhaglen Trawsnewid Trefi ... 16

**2. Cymorth Llywodraeth y DU ... 17**

British Business Bank ... 17

Cronfa buddsoddi i Gymru ... 17

Cwmni Start Up Loans ... 17

UK Export Finance ... 18

**3. Cymorth i Fusnesau ... 19**

Business in Focus ... 19

UK Steel Enterprise (UKSE) ... 19

Bancio Cymunedol Robert Owen ... 19

Purple Shoots ... 20

Pobl ifanc: Ymddiriedolaeth y Brenin ... 20

Entrepreneuriaid benywaidd: NatWest ... 20

Entrepreneuriaid o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol: Hatch ... 20

**4. Cymorth i Fusnesau Cymdeithasol ... 22**
Cyllido Cymru ... 22
Busnes Cymdeithasol Cymru ... 22
UnLtd ... 22
Cwmpas ... 23
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ... 23
**5. Cymorth Rhanbarthol ... 24**
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ... 24
Y Gronfa Buddsoddi Ehangach ... 24
Cyfalaf Buddsoddi mewn Arloesi ... 24
Y Gronfa Safleoedd ... 24
Cronfa'r Cymoedd Gogleddol ... 24
Y Rhaglen Datblygu a Thyfu Clystyrau ... 25
North West Business Growth Loans Fund ... 25
**6. Cymorth Awdurdodau Lleol ... 26**
Blaenau Gwent ... 26
Cymorth cyffredinol ... 26
Kick Start Plus ... 26
Pen-y-bont ar Ogwr ... 27
Cymorth cyffredinol ... 27
Grant Gwella Eiddo Creu Lleoedd Cymoedd a Chanolfannau Ardal Pen-y-bont ar Ogwr ... 27
Grant Datblygu Busnes ... 27
Y Gronfa Cychwyn Busnes ... 27
Caerffili ... 28
Cymorth cyffredinol ... 28
Grant Dechrau Busnes Caerffili ... 28
Y Gronfa Twf Lleol ... 28
Grant Cychwyn Cronfa Twf Lleol ... 29
Caerdydd ... 29
Cymorth cyffredinol ... 29
Cronfa Twf Glanfa'r Iwerydd ... 29

Cronfa Twf Caerdydd ... 30
Sir Gaerfyrddin ... 30
Cymorth cyffredinol ... 30
Grant Twf Busnes Sir Gaerfyrddin ... 30
Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr ... 31
Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin ... 31
Cronfa Mentrau Sir Gaerfyrddin ... 31
Grant Ymchwil a Datblygu Sir Gaerfyrddin ... 31
Cronfa Adnewyddu Canol Trefi ... 32
Cronfa Datblygu Cyfalaf y Rhaglen Deg Tref ... 32
Cronfa Bywiogrwydd Canol Trefi ... 32
Ceredigion ... 33
Cymorth cyffredinol ... 33
Cynnal y Cardi – y Gronfa Twf Lleol ... 33
Conwy ... 33
Cymorth cyffredinol ... 33
Grant Cefnogi Busnes Conwy ... 33
Sir Ddinbych ... 34
Cymorth cyffredinol ... 34
Grant Datblygu Eiddo Masnachol ... 34
Sir y Fflint ... 34
Cymorth cyffredinol ... 34
Gwynedd ... 35
Cymorth cyffredinol ... 35
Y Gronfa Benthyciadau Busnes ... 35
Cynllun Grant Achrediadau ... 35
Ynys Môn ... 36
Cymorth cyffredinol ... 36
Merthyr Tudful ... 36
Cymorth cyffredinol ... 36
Sir Fynwy ... 36
Cymorth cyffredinol ... 36
Castell-nedd Port Talbot ... 37

Cymorth cyffredinol ....37
Grant Eiddo Masnachol ....37
Cymorth Dechrau Busnes ....37
Cronfa Twf Economaidd a Buddsoddi ....37
Casnewydd ....38
Cymorth cyffredinol ....38
Grantiau Busnes Dinas Casnewydd ....38
Sir Benfro ....38
Cymorth cyffredinol ....38
Cronfa Lleihau Carbon Sir Benfro ....39
Cronfa Twf Sir Benfro ....39
Cronfa Cychwyn Busnes Sir Benfro ....39
Powys ....39
Cymorth cyffredinol ....39
Rhondda Cynon Taf ....40
Cymorth cyffredinol ....40
Grant Twf Busnes ....40
Grant Gwella Masnachol ....40
Cynllun Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr ....41
Grant Mân Welliannau Canol y Dref ....41
Abertawe ....41
Cymorth cyffredinol ....41
Bwrsariaeth Lansio Busnes ....41
Grant Lleihau Carbon ....42
Grant Twf ....42
Grant Helpu Prif Strydoedd ....42
Grant Arloesi ....42
Grant Cyn Cychwyn ....43
Grant UK Steel ....43
Torfaen ....43
Cymorth cyffredinol ....43
Bro Morgannwg ....43
Cymorth cyffredinol ....43

Grant Gwella Masnachol .... 44
Rhaglen Grant Carbon Isel BBaCh .... 44
Grant Busnes Newydd a Thwf Busnes y Fro .... 44
Wrecsam .... 45
Cymorth cyffredinol .... 45

# 1. Cymorth Llywodraeth Cymru

## Busnes Cymru

Gwefan a gwasanaeth cynghori Llywodraeth Cymru 'Busnes Cymru' yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer busnesau sy'n chwilio am gymorth. Mae'n darparu cymorth drwy ei linell gymorth; yn darparu cyngor ar-lein drwy **Wasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein** a thrwy weminarau; ac yn darparu cymorth wedi'i deilwra i entrepreneuriaid ifanc drwy **Syniadau Mawr Cymru**.

Mae'r wefan yn amlinellu'r cymorth busnes y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau newydd a phresennol yng Nghymru, yn ogystal â darparu **canfyddwr cyllid** i ddod o hyd i grantiau a benthyciadau posibl sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

Gwefan: **https://businesswales.gov.wales/cy**

Ffôn: 0300 060 3000

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

### Rhaglen Cyflymu Twf

Mae'r Rhaglen Cyflymu Twf yn wasanaeth cymorth busnes ymroddedig ar gyfer entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig sydd â'r weledigaeth, yr ysfa a'r potensial i ehangu'n gyflym. Mae'n wasanaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli neu'n gweithredu yng Nghymru ac a all **ddangos potensial mawr i dyfu**. Mae hyn yn cynnwys yr uchelgais i:

- Dyfu 20% flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Creu o leiaf 10 swydd lawnamser newydd yn y 3 blynedd nesaf
- Bod yn edrych i fasnachu mewn marchnadoedd rhyngwladol
- Bod yn anelu at 3 blynedd o fasnachu i fod yn fwy na £3 miliwn

Mae'r rhaglen yn darparu cymorth wedi'i deilwra gan gynnwys rheolwr perthnasoedd ymroddedig; hyfforddwyr twf uchel; dosbarthiadau meistr a gweminarau dan arweiniad arbenigwyr; cyfeiriadau at arbenigwyr arloesi, cyllid ac allforio; a chyfleoedd rhwydweithio.

Gwefan: **https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/rhaglen-cyflymu-twf/y-rhaglen-cyflymu-twf**

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

### Syniadau Mawr Cymru

Mae **Syniadau Mawr Cymru** yn cefnogi pobl ifanc 25 oed ac iau sy'n ystyried sefydlu busnes. Mae cymorth wedi'i deilwra ar gyfer disgyblion ysgol, myfyrwyr coleg, myfyrwyr prifysgol, a graddedigion. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cymorth i:

- Archwilio syniadau a meithrin hyder;
- Dysgu sut i ddod o hyd i gwsmeriaid a'u cadw;
- Deall prisio a llif arian;
- Hyrwyddo busnes; ac
- Ymdrin â heriau a chadw cymhelliant.

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

### Rhaglen Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes

Mae'r **Rhaglen Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes** yn cefnogi pobl dros 25 oed sy'n ystyried dechrau busnes. Mae'n cynnig ystod o gymorth, gan gynnwys cyngor ymarferol ar hunangyflogaeth; hanfodion dechrau busnes newydd; creu cynllun busnes; deall gofynion cyfreithiol; cael gafael ar gyllid; adeiladu brand a chyrraedd cwsmeriaid; a datblygu ffyrdd cynaliadwy a chynhwysol o weithio.

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

### Parth Allforio

Mae **is-wefan Allforio** Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth am sut i ddechrau allforio, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi ar-lein a gweminarau. Mae deunyddiau cymorth ychwanegol ar gael ar yr **Hyb Allforio**.

Mae'r **Llyfryn Allforio** yn cynnwys manylion yr ystod o gymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fusnesau o Gymru sy'n dymuno tyfu ochr allforio eu busnes.

Mae **Cymorth ar gyfer Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnesau** ar gael i gwmnïau o Gymru y mae angen cymorth ariannol arnynt i ymgymryd â phrosiectau rhyngwladol i ennill busnes newydd. Gall Cymorth ar gyfer Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnesau gefnogi 50% o gost yr ymweliad hyd at uchafswm o £10,000.

Caiff y **Rhaglen Allforiwr Newydd** ei chyflwyno'n flynyddol i garfan o fusnesau micro, bach a chanolig yng Nghymru nad ydynt yn allforio ar hyn o bryd. Mae recriwtio yn digwydd yn ystod misoedd cyntaf pob blwyddyn ariannol ond dylai unrhyw gwmnïau sy'n dymuno mynegi diddordeb gysylltu ag **internationaltrade@llyw.cymru**.

Mae **Grant y Rhaglen Sgiliau Hyblyg - Hyfforddiant Allforio** yn darparu cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru sydd am wella eu gallu i allforio eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Mae'r rhaglen yn cefnogi hyd at 50% o hyfforddiant o fewn y meysydd hyfforddi cymwys, hyd at uchafswm cyfraniad o £20,000 gan Lywodraeth Cymru.

Gwefan: **https://busnescymru.llyw.cymru/allforio/**

## Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Bwyd a Diod

Mae **Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod** ar gael i fusnesau lletygarwch bwyd a diod cymwys i'w helpu i reoli pwysau costau. Bydd busnesau cymwys yn cael gostyngiad o 15% ar eu bil ardrethi busnes ar gyfer 2026-27. Yr uchafswm rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws pob safle sy'n cael ei feddiannu gan yr un busnes. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhyddhad hwn.

Ceisiadau drwy awdurdodau lleol:
**https://busnescymru.llyw.cymru/cysylltiadau-cais-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-rhyddhad-ardrethi-lletygarwch-bwyd-a-diod-2026-27**

## Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct+)

Ariennir y rhaglen ReAct+ gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn helpu pobl y mae diswyddiadau wedi effeithio arnynt i ddychwelyd i'r gwaith drwy ddarparu grantiau i dalu am hyfforddiant a chostau cysylltiedig. Mae hefyd yn talu rhan o gostau cyflogwr sy'n recriwtio person anabl 20+ oed sydd wedi cael ei ddiswyddo dros y chwe mis diwethaf. Gall cyflogwyr sy'n defnyddio'r rhaglen gael hyd at £4,000 a delir mewn pedwar rhandaliad dros 12 mis i helpu i dalu cyflogau'r person cymwys.

Gwefannau: **https://busnescymru.llyw.cymru/topics-and-guidance/employing-people-and-improving-skills/recruit-and-train/react a https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/react-plws**

## Cymorth Arloesi Hyblyg (FIS) SMART

Mae FIS yn becyn cymorth a chyllid a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. Mae'n helpu i fasnacheiddio busnesau Cymru, gwella sgiliau a sicrhau eu bod yn gweithio i fod yn ddi-garbon yn y dyfodol. Mae cymorth ar gael mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys arloesi, partneriaethau, cynhyrchiant a dylunio, eiddo deallusol a'r economi gylchol.

Gwefan: **https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/datblygu-syniadau-ar-gyfer-busnes-cynhyrchion-neu-wasanaethau/mynediad-gyllid-a-chefnogaeth**

## Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru

Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru sy'n darparu Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru. Mae'n darparu buddsoddiad cyfalaf i'r sector gwerth rhwng £100,000 a £5 miliwn, gan gynnwys grantiau a chyllid ad-daladwy. Gellir ei defnyddio naill ai i uwchraddio asedau, neu greu asedau newydd o ansawdd uchel yn y sector twristiaeth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **CBTC@llyw.cymru**, ffoniwch 0300 062 2418, neu **cysylltwch â Banc Datblygu Cymru**.

Gwefan: **https://diwydiant.croeso.cymru/cy/cefnogi-chi/gwybodaeth-chyngor-gyllid-ar-gael-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth**

## Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc

Ariennir **Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc** gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n darparu grant o hyd at £2,000 i entrepreneuriaid ifanc cymwys. Mae'n helpu pobl ifanc o dan 25 oed:

- nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- sy'n gweithio llai na 18 awr yr wythnos
- sy'n bwriadu dod yn hunangyflogedig o fewn 3 mis ar ôl cwblhau eu cwrs addysg

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau datganiad o ddiddordeb **a'i gyflwyno drwy wefan Syniadau Mawr Cymru**, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Mawrth 2027.

Gallai gwariant cymwys gynnwys cymorth arbenigol, cyngor cyfreithiol neu broffesiynol, costau hyfforddi a chostau gweithredu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgarwch busnes.

Gwefan:
**https://busnescymru.llyw.cymru/syniadaumawr/digwyddiadau/grantiau-a-chyllid**

## Cymru Greadigol

Mae **Cymru Greadigol** yn dîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth i'r diwydiannau creadigol. Mae'n darparu buddsoddiad a chymorth i fusnesau o Gymru a buddsoddwyr rhyngwladol sy'n ystyried lleoli yng Nghymru yn y sectorau ffilm a theledu, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a thechnoleg ymgolli.

Mae Cymru Greadigol yn gweithredu **ystod o gronfeydd** ac yn cyfeirio at ffynonellau cyllid a gwasanaethau arbenigol eraill.

Gwefan: **https://www.cymrugreadigol.cymru/cy**

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

## Banc Datblygu Cymru

Mae Banc Datblygu Cymru yn helpu busnesau yng Nghymru drwy gynnig benthyciadau a buddsoddiadau rhwng £1,000 a £10 miliwn. Sefydlwyd y Banc Datblygu gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen i ddechrau, cryfhau a thyfu. Mae'n rheoli **amrywiaeth o gronfeydd** ar gyfer dechrau busnes; datblygu ac ehangu busnes; prynu busnes ac olyniaeth rheoli; datblygu menter dechnoleg; a datblygu eiddo.

Mae ganddo hefyd **wiriwr cymhwysedd** y gall busnesau ei ddefnyddio i weld a allant dderbyn cymorth gan y Banc Datblygu.

Gwefan: **https://developmentbank.wales/cy**

Ffôn: 0800 587 4140

Ffurflen gyswllt ar-lein: **Ffurflen ymholiad**

## Rhaglen Gwella Cynhyrchiant Busnes y Cymoedd Technoleg

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Gwella Cynhyrchiant Busnes fel rhan o raglen y Cymoedd Technoleg. Mae'r rhaglen ar agor i gwmnïau peirianneg a gweithgynhyrchu sydd â mwy na 10 gweithiwr, ac yn eu cefnogi i ddod yn fwy effeithlon, mabwysiadu technoleg newydd, amrywiaethu eu cwsmeriaid, a datblygu cynhyrchion newydd.

Bydd cwmnïau cymwys yn cael archwiliad diagnostig am ddim o'u busnes, ac yna gallant wneud cais am grant cyfalaf rhwng £10,000 a £50,000.

E-bost: **techvalleys@llyw.cymru**

## Rhaglen Trawsnewid Trefi

Gall prosiectau i ailddatblygu a gwella canol trefi neu eu hardaloedd cyfagos fod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan y **Rhaglen Trawsnewid Trefi** sy'n cynnwys y **Gronfa Benthyciadau Trawsnewid Trefi**. Mae enghreifftiau o brosiectau cymwys yn cynnwys datblygu adeiladau sydd heb eu defnyddio, sy'n wag neu sydd mewn cyflwr gwael a'u troi'n fusnesau; gwella'r golwg ar adeiladau; a gwella eiddo sy'n bodoli eisoes drwy gyflwyno gwasanaethau arloesol a chysylltedd, megis band eang cyflym iawn. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhaglen. Mae gwybodaeth am y broses ymgeisio am gyllid ar gael ar wefannau'r awdurdodau lleol.

# 2. Cymorth Llywodraeth y DU

Mae **gwefan Gov.UK** yn cynnwys '**adnodd canfod cymorth busnes**' sy'n caniatáu i fusnesau ddod o hyd i gymorth a chyllid a gefnogir gan y llywodraeth, gan gynnwys grantiau; cyllid a benthyciadau; cymorth busnes e.e. mentora ac ymgynghori; a chyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig a busnesau newydd. Gellir addasu'r chwiliad yn seiliedig ar leoliad y busnes, ei faint a'i weithgarwch.

## British Business Bank

Sefydlwyd British Business Bank gan Lywodraeth y DU i wella mynediad at gyllid i fusnesau bach. Mae ganddo ystod o raglenni agored sy'n darparu cymorth ariannol i fusnesau bach, naill ai ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau sy'n bodoli eisoes.

Gwefan: **https://www.british-business-bank.co.uk/**

Ffôn: 0203 772 1340

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

### Cronfa buddsoddi i Gymru

Gweithredir y **Gronfa Buddsoddi i Gymru** gan reolwyr cronfeydd ar ran British Business Bank. Mae'n cynnig amrywiaeth o opsiynau cyllid masnachol i fusnesau cymwys gan gynnwys benthyciadau llai o £25,000 i £100,000, cyllid dyled o £100,000 i £2 miliwn a buddsoddiad ecwiti hyd at £5 miliwn.

Benthyciadau llai: **Ffurflen ymholiad** neu 0345 313 8410

Cyllid dyled: **Ffurflen ymholiad**

Buddsoddiad ecwiti: **Ffurflen ymholiad**

### Cwmni Start Up Loans

Mae'r cwmni Start Up Loans yn is-gwmni i British Business Bank. Mae'n darparu benthyciadau a gefnogir gan y llywodraeth i unigolion sydd am ddechrau neu dyfu busnes yn y DU. Gall unigolion fenthyca rhwng £500 a £25,000, ac mae uchafswm o £100,000 ar gael i fusnesau. Mae cyfradd llog sefydlog o 6 y cant y flwyddyn, yn ad-daladwy dros gyfnod o rhwng 1 a 5 mlynedd.

Mae'n ofynnol i fusnesau fodloni meini prawf cymhwysedd, er enghraifft rhaid eu bod naill ai'n dechrau busnes newydd, neu wedi bod yn masnachu am lai na 36 mis.

Yn ogystal â chyllid, mae ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn 12 mis o fentora am ddim a chynigion busnes unigryw.

Gwefan: **https://www.startuploans.co.uk/**

Ffôn: 0344 264 2600

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## UK Export Finance

UK Export Finance yw asiantaeth credyd allforio Llywodraeth y DU. Mae'n cefnogi busnesau bach a chanolig a busnesau mawr ym mhob sector i allforio drwy ddarparu gwahanol fathau o gymorth gan gynnwys mynediad at gyfalaf gweithio, yswiriant allforio a chyllid prynwyr.

Gwefan: **https://www.ukexportfinance.gov.uk/**

Ffôn: 0207 271 8010

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

# 3. Cymorth i Fusnesau

## Business in Focus

Sefydliad dielw yw Business in Focus sy'n cefnogi busnesau i gychwyn a thyfu. Mae'n rhoi cyngor mynediad at gyllid, gofynion o ran eiddo a hyfforddiant sgiliau i fusnesau. Mae'r gwasanaethau am ddim y mae'n eu darparu yn cael eu hariannu gan y llywodraeth, ac maent yn cynnwys Busnes Cymru, Syniadau Mawr Cymru a Defence in Focus.

Gwefan: **https://www.businessinfocus.co.uk/**

Ffôn: 0165 686 8545

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## UK Steel Enterprise (UKSE)

Mae UKSE yn darparu cyllid ecwiti, benthyciadau a mannau gwaith i fusnesau mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant dur, gan gynnwys de Cymru ddiwydiannol a Glannau Dyfrdwy. Mae **gwiriwr cymhwysedd** ar y wefan i wirio a yw busnes yn gymwys i gael cyllid.

Gwefan: **https://www.ukse.co.uk/investment/**

Ffôn: 0292 047 1122

E-bost: **wales@ukse.co.uk**

## Bancio Cymunedol Robert Owen

Sefydliad dielw yw Bancio Cymunedol Robert Owen sy'n ailfuddsoddi arian i'r economi leol. Mae ei fenthyciadau busnes a ariennir yn lleol wedi'u hanelu at fusnesau dros ddwy flwydd oed y mae angen cyfalaf gweithio ychwanegol arnynt i ddatblygu a thyfu. Mae benthyciadau o £1,000 i £25,000 ar gael a rhaid talu'r benthyciad yn ôl o fewn pum mlynedd.

Gwefan: **https://www.rocbf.co.uk/business_development_loans/**

Ffôn: 0168 662 6234

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## Purple Shoots

Mae Purple Shoots yn sefydliad cyllid micro dielw ac yn elusen gofrestredig sy'n darparu benthyciadau o hyd at £3,000 i fusnesau bach sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae ei fenthyciadau ar gael i fusnesau newydd a busnesau sefydledig. Gellir ad-dalu benthyciadau rhwng un a thair blynedd, a'u defnyddio at ddibenion fel prynu offer; marchnata; adnewyddu adeilad; a chostau cynnal.

Gwefan: **https://purpleshoots.org/**

Ffôn: 0772 659 9267

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## Pobl ifanc: Ymddiriedolaeth y Brenin

Mae rhaglen Ymddiriedolaeth y Brenin yn gymwys i entrepreneuriaid ifanc newydd rhwng 18 a 30 oed. Mae'r rhaglen yn darparu mynediad i weithdai rhyngweithiol, cynlluniau mentora busnes a'r cyfle i wneud cais am grant dechrau busnes a chyllid benthyciad gwerth cyfanswm o hyd at £30,000.

Gwefan: **https://www.kingstrust.org.uk/**

Ffôn: 0800 842 842

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## Entrepreneuriaid benywaidd: NatWest

Mae NatWest yn cyflogi arbenigwyr Menywod mewn Busnes sy'n darparu cymorth i ddiwallu anghenion entrepreneuriaid benywaidd. Mae amrywiaeth o opsiynau benthyciad a chyllid yn ogystal â chyrsiau am ddim ar gael.

Gwefan: **https://www.business.natwest.com/business/business-services/women-in-business.html**

Ffôn: 0345 711 4477

## Entrepreneuriaid o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol: Hatch

Mae Hatch yn cefnogi entrepreneuriaid o blith grwpiau demograffig heb gynrychiolaeth ddigonol ledled y DU drwy raglenni wedi'u teilwra, cymorth cymunedol, darparu grantiau, a chefnogaeth barhaus hirdymor. Mae'n

gweithredu tair rhaglen wahanol ar gyfer entrepreneuriaid ar wahanol lefelau rhedeg busnes – rhaglenni Launchpad, Incubator ac Accelerator.

Gwefan: **https://hatchenterprise.org/**

E-bost: **Ffurflen gyswllt**

# 4. Cymorth i Fusnesau Cymdeithasol

## Cyllido Cymru

Platfform chwilio am gyllid yw Cyllido Cymru a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Gellir ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyllid ar gyfer elusennau, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol gan ddefnyddio'r cyfleuster chwilio ar-lein am ddim.

Gwefan: **https://funding.cymru/cy/**

Ffôn: 0300 111 0124

E-bost: **fundingwales@wcva.cymru**

## Busnes Cymdeithasol Cymru

Darperir Busnes Cymdeithasol Cymru gan **Cwmpas**, ac mae'n dîm o gynghorwyr busnes arbenigol a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gefnogi mentrau cymdeithasol. Mae'n darparu cymorth i ddechrau, cynnal a datblygu busnes yn ogystal ag ariannu.

Gwefan: **https://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasolcymru/**

Ffôn: 0300 060 3000

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## UnLtd

Mae UnLtd yn darganfod, yn cyllido ac yn cefnogi entrepreneuriaid cymdeithasol. Gall mentrau newydd fod yn gymwys i gael dyfarniadau o hyd at £8,000. Mae'n bosibl y bydd mentrau cymdeithasol sy'n gobeithio tyfu yn gallu gwneud cais am hyd at £18,000. Bydd enillwyr y grantiau hefyd yn cael mynediad at y cyngor, yr arweiniad a'r arbenigedd sydd eu hangen i adeiladu ar sylfeini'r fenter gymdeithasol. Mae o leiaf 50 y cant o'r dyfarniadau'n cael eu defnyddio i gefnogi entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n anabl a/neu sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.

Gwefan: **https://www.unltd.org.uk/**

Ffôn: 0207 566 1100

E-bost: **awardapplications@unltd.org.uk**

## Cwmpas

Roedd Cwmpas gynt yn cael ei adnabod fel Canolfan Cydweithredol Cymru, ac mae'n gymdeithas gofrestredig sy'n cynnig cymorth ar draws ystod o feysydd. Mae prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n ystyried dechrau neu weithredu busnes cymdeithasol, a gall ddarparu cymorth dwys un-i-un i fusnesau cymdeithasol ledled Cymru sy'n edrych i ehangu neu greu swyddi. Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i gyflogeion.

Gwefan: **https://cy.cwmpas.coop/**

Ffôn: 0300 111 5050

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn rhedeg Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol yng Nghymru gydag ystod o gynhyrchion ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau cyllid a weithredir ar y cyd gyda sefydliadau fel Banc Datblygu Cymru.

- **Benthyciadau Pontio ac Adeiladu**
- **Y Gronfa Buddsoddi Cymunedol;**
- **Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol;**
- **Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru**; a
- **Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie**

Gwefan: **https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/**

Ffôn: 0300 111 0124

E-bost: **sic@wcva.org.uk**

# 5. Cymorth Rhanbarthol

## Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gorff rhanbarthol sy'n cynnwys y 10 cyngor ledled de-ddwyrain Cymru. Mae nifer o gronfeydd buddsoddi ar gael i fusnesau yn y rhanbarth.

Gwefan: **https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/**

E-bost: **info@cardiffcapitalregion.wales**

### Y Gronfa Buddsoddi Ehangach

Mae'r **Gronfa Buddsoddi Ehangach** yn gronfa gyffredinol gwerth £495 miliwn sy'n blaenoriaethu arloesi, seilwaith a her o ran buddsoddi. I drefnu trafodaeth gychwynnol, cysylltwch ag **invest@cardiffcapitalregion.wales**.

### Cyfalaf Buddsoddi mewn Arloesi

Mae **Cyfalaf Buddsoddi mewn Arloesi** yn gronfa ecwiti gwerth £50 miliwn a grëwyd gan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac sy'n cael ei phweru gan **PwC**. Mae'n targedu busnesau uwchraddio sydd â chynigion buddsoddi rhwng £2 miliwn a £7 miliwn, a'i nod yw cefnogi cwmnïau twf uchel sy'n canolbwyntio ar dechnoleg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

### Y Gronfa Safleoedd

Mae'r **Gronfa Safleoedd** yn gronfa gwerth £50 miliwn a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy ddatblygu safleoedd newydd ac arwynebedd llawr modern sy'n caniatáu i fusnesau newydd a phresennol uwchraddio ac yna buddsoddi er lles y rhanbarth.

### Cronfa'r Cymoedd Gogleddol

Mae **Cronfa'r Cymoedd Gogleddol** yn gronfa gwerth £50 miliwn a sefydlwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac a gefnogir gan Dimau Awdurdodau Lleol mewn chwe awdurdod lleol yng Nghymoedd y Gogledd. Mae'r gronfa'n cefnogi busnesau a phrosiectau sy'n cynnig potensial twf uchel yn y sectorau seilwaith,

cysylltedd digidol a thwristiaeth. Mae grantiau a buddsoddiadau tebygol sydd ar gael yn amrywio o £100,000 i £2 miliwn.

### Y Rhaglen Datblygu a Thyfu Clystyrau

Mae'r **Rhaglen Datblygu a Thyfu Clystyrau** yn rhaglen gwerth £6.6 miliwn a ariennir ar y cyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae'r rhaglen yn cynnwys tri phrosiect penodol: Rhaglen Sgiliau, cyfres o Bartneriaethau Academaidd-Diwydiant, a Rhaglen Twf Busnes sy'n targedu busnesau sydd â photensial twf uchel.

## North West Business Growth Loans Fund

Mae'r North West Business Growth Loans Fund, a weithredir gan River Capital, yn darparu benthyciadau rhwng £100,000 a £500,000 ar gyfer busnesau bach a chanolig ledled gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r gronfa'n ceisio cefnogi busnesau ar wahanol adegau o'r gwaith datblygu a gall ystyried cyfalaf gweithio, gwariant cyfalaf, caffaeliadau, pryniannau gan y rheolwyr a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â thwf.

Gwefan: **https://rivercapitaluk.com/fund-nwbg/**

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

# 6. Cymorth Awdurdodau Lleol

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru adran cymorth busnes ar ei wefan er mwyn helpu i ddod o hyd i'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i fusnesau yn yr ardal honno.

Mae manylion cyswllt perthnasol ac enghreifftiau o gynlluniau penodol wedi'u cynnwys isod.

## Blaenau Gwent

### Cymorth cyffredinol

Mae'r Uned Datblygu Economaidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ymroddedig i helpu busnesau i ddechrau, tyfu a ffynnu ym Mlaenau Gwent, ac i feithrin perthynas â buddsoddwyr mewnol newydd a datblygwyr a allai fod yn ystyried dod â phrosiectau i'r ardal.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad, cefnogaeth a chyfeiriadau mewn perthynas â chymorth ariannol, tendro, marchnata a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r Cyngor hefyd wedi creu **Hyb Busnes Blaenau Gwent**, sy'n rhoi cyngor a chymorth busnes ar-lein i fusnesau ar gyllid; eiddo a thir; cyfleoedd buddsoddi; a digwyddiadau busnes lleol.

Gwefan: **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/busnes/**

Ffôn: 0149 536 9496

E-bost: **business@blaenau-gwent.gov.uk**

### Kick Start Plus

Mae **Kick Start Plus** yn fenter ar y cyd a ariennir gan UK Steel Enterprise ac a weinyddir gan y Cyngor. Mae'r fenter yn darparu grantiau o hyd at £2,500 i fusnesau newydd rhwng chwe mis a thair blynedd i'w helpu i ddatblygu ac ehangu. Mae'r costau cymwys yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â marchnata; TGCh; gwefannau; a hyfforddiant ac achrediadau. I wneud cais, defnyddiwch y **ffurflen gais** hon.

## Pen-y-bont ar Ogwr

### Cymorth cyffredinol

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y bont ar Ogwr yw rhoi cymorth, cyngor am ddim a gwybodaeth i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol; safleoedd ac adeiladau; mentrau hyfforddi; a digwyddiadau lleol.

Gwefan: **https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/**

Ffôn: 0165 681 5315

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

### Grant Gwella Eiddo Creu Lleoedd Cymoedd a Chanolfannau Ardal Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dwy elfen i **Grant Gwella Eiddo Creu Lleoedd Cymoedd a Chanolfannau Ardal Pen-y-bont ar Ogwr** - gwella tu blaen adeiladau a dod â gofod llawr masnachol gwag yn ôl i ddefnydd buddiol, a throi gofod llawr uchaf gwag yn llety preswyl. Mae'n darparu grantiau o hyd at 80% o'r costau cymwys, hyd at £30,000 ar gyfer eiddo sy'n cael ei feddiannu a £49,999 ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **regeneration@bridgend.gov.uk**.

### Grant Datblygu Busnes

Mae'r **Grant Datblygu Busnes** yn darparu cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig newydd a phresennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr amrywiaethu, datgarboneiddio a thyfu. Gellir dyfarnu cymorth grant rhwng £5,000 a £25,000 (ac eithrio TAW). Mae gwariant cymwys yn cynnwys offer cyfalaf; offer cyfrifiadurol; datblygu gwefannau; a gwaith adeiladu bach. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **businessfunds@bridgend.gov.uk**.

### Y Gronfa Cychwyn Busnes

Darperir y **Gronfa Cychwyn Busnes** drwy bartneriaeth â UK Steel Enterprise a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i ficrofusnesau newydd neu bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gellir dyfarnu cymorth grant rhwng £250 a £4,000. Mae gwariant cymwys yn

cynnwys offer cyfalaf; offer cyfrifiadurol; datblygu gwefannau; a gwaith adeiladu ar safle busnes. I wneud cais, defnyddiwch y **ffurflen gais** hon.

## Caerffili

### Cymorth cyffredinol

Gall tîm Cymorth Menter Busnes Bwrdeistref Sirol Caerffili roi cyngor ac arweiniad manwl i fusnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn bodoli ar ystod eang o bynciau i weddu i'w hanghenion unigol.

Gwefan: **https://www.caerffili.gov.uk/business/support,-promotion-and-advice/business-enterprise-support-team?lang=cy-gb**

Ffôn: 0144 386 6220

E-bost: **Business@Caerphilly.gov.uk**

### Grant Dechrau Busnes Caerffili

Cynllun grantiau hyblyg yw'r **Grant Dechrau Busnes** a gaiff ei ddarparu mewn partneriaeth ag UK Steel Enterprise a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae wedi'i gynllunio i helpu trigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n methu â chael mynediad at unrhyw ffynonellau eraill o gyllid i sefydlu busnes llawnamser am y tro cyntaf. Ni ddylai'r busnes fod wedi dechrau cyn i'r cais gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo.

Mae'n grant dewisol a all ddarparu hyd at 50 y cant o gostau cymwys y prosiect hyd at uchafswm o £500. Gallai costau cymwys gynnwys offer cyfalaf; offer TGCh; datblygu gwefannau; marchnata; a gwaith adeiladu ar safleoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y grant hwn neu unrhyw un o'r uchod, defnyddiwch y **Ffurflen Ymholiad** hon.

### Y Gronfa Twf Lleol

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth ar gyfer prosiectau cyfalaf drwy **gyllid a ddarperir drwy'r Gronfa Twf Lleol**. Bydd yn darparu grantiau hyd at £25,000 sy'n talu am 50% o'r costau cymwys ar gyfer prosiectau cyfalaf a all helpu i ail-lansio busnes, ei ddatblygu mewn ffyrdd arloesol, a chreu swyddi newydd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Adnewyddu Menter Busnes yn **busnes@caerffili.gov.uk**.

### Grant Cychwyn Cronfa Twf Lleol

Mae'r **Grant Cychwyn Cronfa Twf Lleol** yn cael ei ariannu gan y Gronfa Twf Lleol, ac mae'n darparu grant o hyd at £5,000 i ficrofusnesau newydd i'w helpu i lansio a datblygu eu menter newydd. Mae'n talu hyd at 50% o gostau prosiect cymwys. I gael rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais, cysylltwch â **busnes@caerffili.gov.uk**.

## Caerdydd

### Cymorth cyffredinol

Gall tîm Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd roi cyngor i fusnesau sy’n bodoli eisoes neu fusnesau newydd sy’n awyddus i leoli yn y ddinas ar sut i ddod o hyd i fenthyciadau, grantiau ac ecwiti gan ystod o sefydliadau, a sut i’w sicrhau.

Mae hefyd yn cyhoeddi manylion am weithdai ac unedau busnesau newydd sydd â’r nod o annog busnesau lleol newydd a busnesau lleol sy’n ehangu drwy gynnig unedau busnes sydd â thelerau hawdd eu defnyddio.

Gwefan: **https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Cymorth-a-Chyllid-i-Fusnesau/Cyngor-Busnes/Pages/Cyngor-Busnes.aspx**

Ffôn: 0292 087 2087

E-bost: **businessadvice@cardiff.gov.uk**

### Cronfa Twf Glanfa'r Iwerydd

Mae **Cronfa Twf Glanfa'r Iwerydd** yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol. Bydd yn cefnogi busnesau cymwys yn ward Butetown i ail-lansio, datblygu, tyfu a manteisio ar y cyfleoedd a gynhyrchir gan ailddatblygu Glanfa'r Iwerydd. Bydd yn cefnogi prosiectau sy'n creu neu'n diogelu swyddi, yn cefnogi mwy o gynhyrchiant, ac yn cynyddu hygyrchedd a chyfleoedd i gymunedau lleol. Fel arfer, bydd grantiau rhwng £1,000 a £20,000, a byddant yn talu hyd at 75% o gostau cymwys y prosiect. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried ceisiadau dros £20,000 ar gyfer prosiectau strategol sy'n canolbwyntio ar greu swyddi a phrosiectau cyfalaf mawr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **CronfaTwfCaerdydd@caerdydd.gov.uk**.

### Cronfa Twf Caerdydd

Mae **Cronfa Twf Caerdydd** yn cael ei hariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol hefyd. Bydd yn cefnogi prosiectau sy'n creu neu'n diogelu swyddi, yn cefnogi rhagor o gynhyrchiant, ac yn gwella hygyrchedd a chyfleoedd i gymunedau lleol. Bydd mwyafrif y grantiau rhwng £2,500 a £20,000, a byddant yn talu hyd at 50% o gostau prosiect cymwys. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ystyried ceisiadau dros £20,000 ar gyfer prosiectau strategol sy'n canolbwyntio ar greu swyddi a phrosiectau cyfalaf mawr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **CronfaTwfCaerdydd@caerdydd.gov.uk**.

## Sir Gaerfyrddin

### Cymorth cyffredinol

Mae gan wefan Cyngor Sir Caerfyrddin adran benodol ar gyfer busnesau i ddod o hyd i wybodaeth ar agweddau megis trethi busnes, cymorth busnes a gwastraff busnes.

Mae'r tîm busnes yn darparu cymorth busnes uniongyrchol i lawer o berchnogion busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli yn barod yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n ymdrin â phob agwedd ar ymholiadau busnes ac yn darparu cymorth busnes i drethdalwyr. Mae hefyd yn cynnig cyngor uniongyrchol a chymorth ar fuddsoddi i gwmnïau sy'n tyfu.

Gwefan: **https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/**

Ffôn: 0155 474 8813

E-bost: **cronfafusnes@sirgar.gov.uk**

### Grant Twf Busnes Sir Gaerfyrddin

Ariennir Grant Twf Busnes Sir Gaerfyrddin drwy'r Gronfa Twf Lleol, a bydd yn cefnogi busnesau bach a chanolig lleol a mewnfuddsoddwyr i ddod yn wydn ac yn gystadleuol; i dyfu, ffynnu a bod yn gynaliadwy. Bydd y grant yn darparu rhwng £1,000 a £50,000 i **fusnesau cymwys o fewn sectorau penodedig** ar gyfer costau cyfalaf fel prynu offer, caledwedd TG a telathrebu, gosodiadau a ffitiadau, a deunydd marchnata. Gellir cefnogi gwariant refeniw arbenigol sy'n gysylltiedig â'r costau cyfalaf hyn hefyd. Dylai busnesau sydd â diddordeb **gyflwyno mynegiant o ddiddordeb** yn amlinellu eu cynnig a'u costau.

### Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr

Mae **Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr** yn daliad llawn o hyd at £1,000 i drigolion Sir Gâr 18 oed a hŷn sydd â diddordeb mewn profi syniad busnes, ac sydd heb fawr o brofiad busnes blaenorol. Mae'n cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol. Drwy brofi ei syniad, gall yr entrepreneur fireinio ei gynhyrchion neu wasanaethau, a deall galw'r farchnad heb y risg ariannol. I wneud cais, bydd angen i entrepreneuriaid **gyflwyno mynegiant o ddiddordeb**.

### Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin

Mae **Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin** yn darparu grantiau rhwng £1,000 a £50,000 ar gyfer busnesau newydd o fewn **sectorau economaidd penodol**. Mae'n cael ei ariannu trwy'r Gronfa Twf Leol, a bydd yn cefnogi'r busnes gyda chostau cyfalaf fel prynu offer, caledwedd TG a thelathrebu, gosodiadau a ffitiadau, a deunydd marchnata. Gellir cefnogi gwariant refeniw arbenigol sy'n gysylltiedig â'r costau cyfalaf hyn hefyd. Dylai busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais gyflwyno **mynegiant o ddiddordeb** yn amlinellu eu cynnig a'u costau.

### Cronfa Mentrau Sir Gaerfyrddin

Mae **Cronfa Mentrau Sir Gaerfyrddin** yn cefnogi busnesau ac unig fasnachwyr i ddatblygu safleoedd busnes newydd a phresennol, lle mae swyddi'n cael eu creu o ganlyniad i'r prosiect. Bydd y cynnig grant yn seiliedig ar £30,000 am bob swydd a grëir neu 50% o'r costau, pa un bynnag sydd isaf. Uchafswm lefel y grant yw £240,000, y gellir ei gynyddu o dan amgylchiadau eithriadol. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **datblygueconomaidd@sirgar.gov.uk**.

### Grant Ymchwil a Datblygu Sir Gaerfyrddin

Bydd **Grant Ymchwil a Datblygu Sir Gaerfyrddin** yn cefnogi busnesau bach a chanolig sydd yn y camau cynnar o ddatblygu cynhyrchion, prosesau a/neu wasanaethau arloesol i dyfu, ffynnu a bod yn gynaliadwy. Bydd yn darparu grantiau i **fusnesau mewn sectorau penodedig** rhwng £1,000 a £50,000 i dalu hyd at 50% o'r costau cymwys. Darperir y grant drwy'r Gronfa Twf Lleol, a bydd yn cwmpasu gwariant cyfalaf a refeniw arbenigol sy'n gysylltiedig â datblygu a phrofi cynhyrchion newydd fel prototeipio, dylunio, gweithgynhyrchu, monitro, gwerthuso, ardystio sicrhau ansawdd, hyfforddiant a meddalwedd. Dylai

busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais **gyflwyno mynegiant o ddiddordeb**.

## Cronfa Adnewyddu Canol Trefi

Ariennir y **Gronfa Adnewyddu Canol Trefi** gan yr awdurdod lleol a'r Gronfa Twf Lleol. Mae ar agor i fusnesau cymwys yn Rhydaman, Porth Tywyn, Caerfyrddin a Llanelli, ac mae'n canolbwyntio ar welliannau allanol i ffasadau adeiladau canol trefi. Mae'r gronfa yn darparu grantiau rhwng £500 a £2,000, ac mae'n talu hyd at 80% o'r costau cymwys sy'n gwella'r golwg ar yr adeilad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **trefi@sirgar.gov.uk**.

## Cronfa Datblygu Cyfalaf y Rhaglen Deg Tref

Diben y **Rhaglen Deg Tref** yw cefnogi adferiad economaidd a thwf y trefi gwledig a ganlyn ledled y sir: Castellnewydd Emlyn, Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Hendy-gwyn ar Daf, Llandeilo, Llanybydder, Llanymddyfri, Sanclêr a Thalacharn. Gallai adeiladau gwag ar draws y trefi hyn fod yn gymwys i gael hyd at £50,000 o gymorth i'w hailddatblygu. Mae rhydd-ddeiliaid a rhai lesddeiliaid yn gymwys i gael y grantiau, a dylai prif ffocws y gwaith ailddatblygu fod ar waith i'r tu mewn i'r eiddo, er bod gwaith i'r tu allan a'r cwrtil yn gymwys ar gyfer cymorth. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **RDPSIRGAR@sirgar.gov.uk**.

## Cronfa Bywiogrwydd Canol Trefi

Ariennir **Cronfa Bywiogrwydd Canol Trefi** gan y cyngor a'r Gronfa Twf Lleol, a'i nod yw ailddefnyddio safleoedd gwag ar y llawr gwaelod at ddibenion masnachol, gan greu a/neu ddiogelu swyddi. Mae ar gael i fusnesau cymwys yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli, ac mae'n darparu grantiau rhwng £5,000 a £50,000 sy'n talu hyd at 70% o'r costau. Mae'r grant ar gyfer gwaith i'r tu mewn i adeiladau, y tu allan i adeiladau a chwrtil adeiladau, a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr weithio gydag un prif gontractwr profiadol. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **trefi@sirgar.gov.uk**.

## Ceredigion

### Cymorth cyffredinol

Mae gan wefan Cyngor Sir Ceredigion adran benodol ar gyfer busnesau i ddod o hyd i wybodaeth ar agweddau megis trethi busnes, cymorth busnes a gwastraff busnes.

Gwefan: **https://www.ceredigion.gov.uk/busnes/**

Ffôn: 0154 557 0881

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

### Cynnal y Cardi – y Gronfa Twf Lleol

Mae'r **Grant Cyfalaf Busnes Cynnal y Cardi** yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol, a bydd yn darparu grantiau rhwng £2,500 a £50,000 i fusnesau cymwys. Bydd y grant yn cefnogi gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol cysylltiedig. Dylai busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais lenwi **ffurflen mynegiant o ddiddordeb**.

## Conwy

### Cymorth cyffredinol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu Canolfan Fusnes Conwy fel hwb canolog ar gyfer cymorth busnes yng Nghonwy, gyda thîm sy’n ymroddedig i gefnogi busnesau; cynnal digwyddiadau ar gyfer busnes; helpu busnesau i ddod o hyd i adeiladau; a darparu cyfleusterau cyfarfod a chynadledda.

Gwefan: **https://conwybusinesscentre.com/cy/**

Ffôn: 0149 257 4574

E-bost: **busnes@conwy.gov.uk**

### Grant Cefnogi Busnes Conwy

Mae **Grant Cefnogi Busnes Conwy** yn cefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a phrosiectau arallgyfeirio ffermydd. Mae’n talu hyd at 50% o’r

costau cyfalaf cymwys rhwng £500 a £1,500. Rhaid i brosiectau allu dangos canlyniadau datblygu busnes, er enghraifft mwy o drosiant a/neu broffidioldeb, creu swyddi, mentrau carbon isel, cynhyrchion a gwasanaethau newydd, datblygu sylfaen cwsmeriaid newydd, neu fwy o gynaliadwyedd busnes. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **business@conwy.gov.uk**.

## Sir Ddinbych

### Cymorth cyffredinol

Gall Cyngor Sir Ddinbych hefyd roi cymorth, cyngor a gwybodaeth i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae ei wefan yn rhoi manylion am nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â busnes gan gynnwys dechrau busnes, trethi busnes, hyfforddiant a digwyddiadau a pharhad busnes. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am y grantiau a'r cyllid sydd ar gael i fusnesau.

Gwefan: **https://www.denbighshire.gov.uk/cy/busnes/busnes.aspx**

Ffôn: 0182 470 6000

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

### Grant Datblygu Eiddo Masnachol

Mae **Grant Datblygu Eiddo Masnachol** ar gael i eiddo masnachol yng nghanol un o'r wyth prif dref a dinas yn y sir sydd wedi cynnig prosiectau i ddatblygu a gwella eu heiddo yng nghanol y dref. Bydd grantiau prosiect unigol yn cael eu cyfyngu i £50,000 fesul cais gydag isafswm o £5,000 ac mae cyllid cyfatebol o 30 y cant yn ofynnol gan yr ymgeisydd. Gall gwaith allanol a mewnol fod yn gymwys gan gynnwys unrhyw waith i wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad.

## Sir y Fflint

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys ystod o gyngor a gwybodaeth i fusnesau, gan gynnwys dechrau busnesau a'u hariannu; cyfeirlyfr busnesau lleol; ac ardrethi busnes. Gall y tîm Datblygu Busnes drafod amgylchiadau busnesau unigol a rhoi manylion am gymorth busnes a grantiau busnes sydd ar gael yn Sir y Fflint.

Gwefan: **https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Home.aspx**

Ffôn: 0135 270 3040

E-bost: **busdev@flintshire.gov.uk**

## Gwynedd

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Gwynedd yn darparu gwybodaeth am y cymorth, y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael i fusnesau, yn ogystal â ffynonellau cyllid.

Gwefan: **https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Busnesau.aspx**

Ffôn: 0128 667 9231

E-bost: **busnes@gwynedd.llyw.cymru**

### Y Gronfa Benthyciadau Busnes

Gall busnesau bach a chanolig eu maint wneud cais i'r **Gronfa Benthyciadau Busnes.** Pwrpas y Gronfa yw sefydlu neu ddatblygu busnes ac nid i ad-dalu unrhyw ddyledion sy'n bodoli eisoes neu fenthyciadau eraill. Gwerth benthyciadau bach gan y Gronfa yw rhwng £25,000 a £100,000 gyda'r cyfle i fenthyca symiau uwch hyd at £750,000. Hyd tymor arferol ar gyfer benthyciad bach yw rhwng 36 a 60 mis. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **busnes@gwynedd.llyw.cymru**.

### Cynllun Grant Achrediadau

Mae'r **Cynllun Grant Achrediadau** yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint yng Ngwynedd i ennill achrediadau sy'n gosod safonau cydnabyddedig ar gyfer cynhyrchion, gwasanaethau a systemau, er mwyn sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd. Mae'r cynllun grant yn cyfrannu at gost ymgynghorydd ac nid yw cost yr ardystiad gwirioneddol wedi'i gynnwys yn y cynllun. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **busnes@gwynedd.llyw.cymru**.

## Ynys Môn

### Cymorth cyffredinol

Mae tudalennau gwe cymorth busnes Cyngor Ynys Môn yn cynnwys manylion am fusnesau lleol; ffynonellau cyllid a grantiau; a Chanolfan Fusnes Ynys Môn, sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymorth busnes i fusnesau sy'n gweithio ar yr ynys. Yn ogystal, mae Môn CF yn elusen sy'n helpu busnesau bach ar Ynys Môn.

Gwefan: **https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Busnes/Busnes.aspx**

Ffôn: 0124 875 0057

E-bost: **cyswlltmon@ynysmon.llyw.cymru**

Gwefan (Môn CF): **https://www.moncf.co.uk/**

## Merthyr Tudful

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu cefnogaeth a chyngor i fusnesau, gan gynnwys grantiau a chyllid sydd ar gael; a chyngor mwy cyffredinol.

Gwefan: **https://www.merthyr.gov.uk/business/support-and-advice-for-businesses/?lang=cy-GB&**

Ffôn: 0168 572 5000

E-bost: **Ffurflen ymholiad**

## Sir Fynwy

### Cymorth cyffredinol

Mae tîm Busnes a Menter Cyngor Sir Fynwy yn cynghori ac yn cefnogi busnesau yn y sir. Mae'n darparu gwybodaeth am ddechrau a thyfu busnes; cefnogi entrepreneuriaid ifanc; dod o hyd i gyllid; ac arloesedd gwledig.

Gwefan: **https://www.monmouthshire.gov.uk/business/**

Ffôn: 0163 374 8316

E-bost: **EconomicDevelopment@monmouthshire.gov.uk**

## Castell-nedd Port Talbot

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Busnes CNPT Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn darparu manylion am gymorth busnes a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys manylion am gymorth i bobl sy'n dechrau busnes yn yr ardal, neu sy'n adleoli busnes sy'n bodoli eisoes.

Gwefan: **https://businessinneathporttalbot.com/cy/cymorth-busnes/**

Ffôn: 0163 968 6835

E-bost: **business@npt.gov.uk**

### Grant Eiddo Masnachol

Mae'r **Grant Eiddo Masnachol** ar gael i berchnogion mangreoedd masnachol sydd am wella'r golwg ar eu hadeilad. Rhaid i ymgeiswyr fod yn rhydd-ddeiliad yr eiddo neu'n denant sydd â les sydd â chyfnod heb ddod i ben o leiaf 5 mlynedd o ddyddiad y taliad grant. Mae'r grant yn cynnwys 50 y cant o'r costau cymwys ac mae gwaith cymwys yn cynnwys amnewid blaen siopau; arwyddion newydd; nwyddau dŵr glaw; paentio, rendro a rhoi sylw i waith cerrig a gwaith brics; a'r gost am sgaffaldiau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **n.bulcraig@npt.gov.uk**.

### Cymorth Dechrau Busnes

Mae tîm cyflogadwyedd yr awdurdod lleol yn darparu cymorth dechrau busnes i bobl a ddiswyddwyd o Tata Steel UK, cwmnïau a chontractwyr cadwyn gyflenwi a'u teuluoedd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **nptemployability@npt.gov.uk** neu **jobsupport@npt.gov.uk**.

### Cronfa Twf Economaidd a Buddsoddi

Mae'r **Gronfa Twf Economaidd a Buddsoddi** wedi'i sefydlu gyda chyllid gan Lywodraeth y DU a Tata Steel UK i gefnogi prosiectau twf mewn sectorau allweddol mewn ardaloedd y mae'r trawsnewid yn Tata yn effeithio fwyaf

arnynt. Mae'n darparu grantiau i dalu hyd at 70% o gostau'r prosiect rhwng £300,001 a £1.5 miliwn, gyda grantiau o hyd at £2 filiwn ar gael o dan amgylchiadau eithriadol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **tsukgrantqueries@npt.gov.uk**.

## Casnewydd

### Cymorth cyffredinol

Mae tîm Datblygu Economaidd Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu cymorth i fusnesau newydd a sefydledig, gan gynnwys cymorth ariannol, lleoli yng Nghasnewydd, ac o ran tir ac eiddo.

Gwefan: **https://www.casnewydd.gov.uk/cy/Business/Business-home-page.aspx**

Ffôn: 0163 365 6656

E-bost: **business.services@newport.gov.uk**

### Grantiau Busnes Dinas Casnewydd

Mae **grantiau** o 50 y cant o'r costau net hyd at £2,500 ar gael i fusnesau y tu allan i ganol y ddinas, ac mae grantiau hyd at £5,000 ar gael i'r rhai sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas. Gellir defnyddio'r grant tuag at bum eitem offer cyfalaf gan gynnwys seilwaith ac offer; offer a meddalwedd TGCh; a datblygu gwefannau a hyfforddiant cysylltiedig. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i: **business.services@newport.gov.uk**.

## Sir Benfro

### Cymorth cyffredinol

Mae tîm cymorth busnes Cyngor Sir Penfro yn darparu cyngor a chymorth i fusnesau, unigolion a sefydliadau eraill. Ei nod yw meithrin diwylliant mentrus ac entrepreneuraidd llwyddiannus yn economi Sir Benfro. Mae cymorth wedi'i dargedu ar gael ar gyfer sectorau busnes penodol i gynorthwyo gyda'r broses o ddatblygu prosiectau hyfyw a chreu swyddi.

Gwefan: **https://www.sir-benfro.gov.uk/busnes**

Ffôn: 0143 777 6167

E-bost: **BusinessSupport@pembrokeshire.gov.uk**

### Cronfa Lleihau Carbon Sir Benfro

Mae **Cronfa Lleihau Carbon Sir Benfro** yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol, ac mae'n agored i fusnesau cymwys **o fewn sectorau penodol** i'w cefnogi i leihau allyriadau carbon. Mae'n ariannu gwariant cyfalaf rhwng £1,000 a £35,000 mewn perthynas â systemau pŵer, gwresogi a systemau gwres a phŵer cyfunol. I wneud cais, dylai busnesau sydd â diddordeb **gyflwyno mynegiant o ddiddordeb**.

### Cronfa Twf Sir Benfro

Mae **Cronfa Twf Sir Benfro** yn cael ei hariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol, a bydd yn darparu grantiau rhwng £1,000 a £50,000 i gefnogi **busnesau mewn sectorau cymwys** gyda chost prosiectau cyfalaf sy'n creu swyddi newydd. Mae costau cymwys yn cynnwys gwariant cyfalaf a chostau refeniw arbenigol. Dylai busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais **gyflwyno mynegiant o ddiddordeb**.

### Cronfa Cychwyn Busnes Sir Benfro

Nod **Cronfa Cychwyn Busnes Sir Benfro** yw annog a chefnogi creu busnesau newydd yn y sir, sy’n arwain yn uniongyrchol at greu swyddi newydd. Mae'n cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol, ac mae'n dyfarnu grantiau rhwng £1,000 a £15,000 i grwpiau neu unigolion sydd â chynnig busnes newydd hyfyw **mewn sector cymwys**. Mae'r gronfa'n cefnogi busnesau cymwys gyda gwariant cyfalaf a chostau refeniw arbenigol. Dylai busnesau cymwys sydd â diddordeb **gwblhau Mynegiant o Ddiddordeb**.

## Powys

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Sir Powys yn darparu ystod o wybodaeth i fusnesau, gan gynnwys ffynonellau grantiau a chyngor, a gwasanaethau i fusnesau.

Gwefan: **https://cy.powys.gov.uk/**

Ffôn: 0159 782 7460

E-bost: **regeneration@powys.gov.uk**

## Rhondda Cynon Taf

### Cymorth cyffredinol

Mae Is-adran Adfywio a Chynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda'r gymuned fusnes leol a phartneriaid. Gall helpu gyda chyngor ar gynllunio, dod o hyd i safle a chyllid grant.

Gwefan: **https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessSupportandAdvice/BusinessSupportandAdvice.aspx**

Ffôn: 0144 328 1124

E-bost: **regeneration@rctcbc.gov.uk**

### Grant Twf Busnes

Nod y **Grant Twf Busnes** yw helpu busnesau cynaliadwy lleol i sefydlu, tyfu ac amrywiaethu, gan gyfrannu at greu economi leol fywiog a chryf. Rhaid i fusnesau weithredu yn Rhondda Cynon Taf a chael eu hystyried yn fusnes newydd neu fusnes presennol sydd â llai na 250 o weithwyr. Gellir dyfarnu uchafswm cyfraniad o 75 y cant tuag at gostau cymwys y prosiect ar gyfer mangreoedd masnachol (£2,000-£15,000) neu fangreoedd preswyl (£1,000-£2,000). Rhaid i geisiadau fod ar gyfer gwariant cyfalaf fel offer cyfalaf, seilwaith neu beiriannau; gwaith adnewyddu mewnol; effeithlonrwydd ynni; a datblygu gwefannau newydd. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0144 328 1124 neu anfonwch e-bost i: **adfywio@rctcbc.gov.uk**.

### Grant Gwella Masnachol

Mae'r **Grant Gwella Masnachol** yn cefnogi gwelliannau allanol i adeiladau busnes yng nghanol trefi a nodwyd. Nod y cynllun yw gwella gwedd flaen eiddo masnachol, effeithlonrwydd ynni busnesau, ac ymddangosiad cyffredinol strydoedd yng nghanol trefi. Mae'r grant yn darparu hyd at £50,000 i dalu hyd at 50% o gostau prosiect cymwys. I wneud cais, dylai busnesau **lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb** a'i dychwelyd at **adfywioeiddo@rctcbc.gov.uk**.

### Cynllun Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr

Nod y **Cynllun Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr** yw targedu datblygiad eiddo masnachol gwag mawr yng nghanol trefi. Mae'n talu 50% o gostau'r gwaith adeiladu angenrheidiol hyd at £250,000 i ddatblygu a dod ag unedau yn ôl i ddefnydd. Dylai busnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais **lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb** a'i dychwelyd at **adfywioeiddo@rctcbc.gov.uk**.

### Grant Mân Welliannau Canol y Dref

Gall masnachwyr canol trefi a pherchnogion eiddo gwag mewn wyth tref ledled Rhondda Cynon Taf fod yn gymwys ar gyfer **Grant Mân Welliannau Canol y Dref**. Ariennir y grant hwn gan gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU, ac mae'n cefnogi busnesau i wneud gwelliannau addurniadol bach i ffasadau adeiladau allanol. Gall y grant gyfrannu hyd at 75% tuag at gost gwaith cymwys hyd at uchafswm o £2,000. Os oes angen llogi sgaffaldiau neu sgipiau, gellir gwneud grant pellach sy'n talu hyd at 75% o'r costau o hyd at £500. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag **adfywio@rctcbc.gov.uk**.

## Abertawe

### Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Abertawe yn cynnwys ystod o wybodaeth am gyllid, rhedeg busnes, cymorth recriwtio a datblygu eiddo.

Gwefan: **https://www.abertawe.gov.uk/cyngorbusnes**

Ffôn: 0179 263 6000

E-bost: **business@swansea.gov.uk**

### Bwrsariaeth Lansio Busnes

Mae'r **Fwrsariaeth Lansio Busnes** yn rhoi cyfle i entrepreneuriaid lleol archwilio a threialu eu syniadau cyn sefydlu cwmni yn ffurfiol. Mae'n darparu hyd at £1,000 i gefnogi entrepreneuriaid i ymgymryd â phrofi'r farchnad, sy'n eu helpu i lunio eu cynnig, mesur diddordeb cwsmeriaid, a magu hyder. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **startupgrant@abertawe.gov.uk**.

## Grant Lleihau Carbon

Mae'r **Grant Lleihau Carbon** yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol, ac mae ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys cynhyrchu ynni carbon isel, mesurau effeithlonrwydd ynni, neu welliannau prosesau sy'n arwain at leihau allyriadau carbon. Mae cymorth grant ar gael hyd at £10,000, gan godi i £30,000 lle caiff gwerth uchel am arian ei ddangos, gyda'r grant yn cwmpasu 50% o'r costau cymwys. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **businesswansea@swansea.gov.uk**.

## Grant Twf

Mae'r **Grant Twf** yn cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli sy'n ceisio tyfu trwy gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau newydd a fydd yn creu swyddi. Gall y gronfa gynnig hyd at £50,000, gan dalu am 50% o'r costau cymwys. Mae lefel y grant yn gysylltiedig ag isafswm llinell sylfaen o £7,500 fesul swydd a grëir, gyda'r posibilrwydd o lefelau grant uwch yn dibynnu ar y cynnig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **businesswansea@swansea.gov.uk**.

## Grant Helpu Prif Strydoedd

Nod y **Grant Helpu Prif Strydoedd** yw cefnogi mentrau lletygarwch a manwerthu newydd i sefydlu eu hunain yng nghanol y ddinas a chanolfannau'r ardal. Mae'n cynnig grantiau o hyd at £30,000, sy'n cynnwys hyd at £25,000 mewn costau cychwynnol a hyd at £5,000 i gefnogi busnesau sydd â gorbenion yn ystod eu tri mis cyntaf o fasnachu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy **startupgrant@swansea.gov.uk**.

## Grant Arloesi

Mae'r **Grant Arloesi** yn darparu cymorth hyd at £10,000 i fusnesau sy'n ceisio datblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd neu wedi'u gwella a fydd yn cyfrannu at dwf busnes. Bydd yn cwmpasu 50% o'r costau cymwys hyd at y gwerth hwn, a all gwmpasu costau prototeipio, profi cynnyrch, costau patent ac eiddo deallusol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **businesswansea@swansea.gov.uk**.

### Grant Cyn Cychwyn

Mae'r **Grant Cyn Cychwyn** yn darparu cymorth cychwynnol i fentrau hyfyw nad ydynt wedi'u cofrestru neu'n masnachu eto ac sydd â chynllun busnes a rhagolwg ariannol 12 mis. Mae'n darparu cymorth o hyd at £25,000, gyda'r £2,000 cyntaf mewn costau wedi'u talu'n llawn, a'r gweddill yn talu am 50% o'r costau cymwys. Mae gwariant cyffredin yn cynnwys offer, hyfforddiant/achrediad, stoc gychwynnol a chostau marchnata. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **businesswansea@swansea.gov.uk**.

### Grant UK Steel

Mae Grant UK Steel mewn partneriaeth â UK Steel Enterprise Ltd ac mae'n cynnig hyd at £500 ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau sydd o dan ddwy oed yn ardal Cyngor Abertawe. Bydd y grant yn talu 50 y cant o gostau cymwys y prosiect ac isafswm y grant sy'n daladwy yw £250. Mae'r cyllid yn cynnwys eitemau fel offer, cymwysterau, cyfrifyddiaeth, meddalwedd, datblygu gwefannau ac offer. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â **startupgrant@swansea.gov.uk**.

## Torfaen

### Cymorth cyffredinol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithredu Cyswllt Busnes Torfaen, gwasanaeth personol ar gyfer ymholiadau busnes, un pwynt cyswllt lle gall busnesau gael gafael ar yr holl wasanaethau, cyngor a chymorth ehangach gan y cyngor.

Gwefan: **https://www.torfaen.gov.uk/cy/Business/Business-Direct/Business-Direct-Torfaen.aspx**

Ffôn: 01633 648735

E-bost: **businessdirect@torfaen.gov.uk**

## Bro Morgannwg

### Cymorth cyffredinol

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ei dîm Cymorth Busnes ei hun a all helpu busnesau sy'n dechrau a busnesau sy'n bodoli eisoes.

Gwefan: **https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Business-Advice-and-Guidance.aspx**

Ffôn: 0144 670 4636

E-bost: **economic@valeofglamorgan.gov.uk**

## Grant Gwella Masnachol

Mae'r **Grant Gwella Masnachol** yn darparu cymorth i wella a chynnal a chadw gwedd flaen eiddo manwerthu ym Mro Morgannwg. Gall busnesau a pherchnogion eiddo masnachol a manwerthu yng nghanol y trefi wneud cais. Gall y grant gyfrannu 70 y cant tuag at gost gwaith cymwys hyd at uchafswm grant o £2,000. Mae gwaith cymwys yn cynnwys paentio'r wedd flaen; atgyweirio, ailbwyntio a glanhau gwaith cerrig neu rendro; atgyweirio gwydr, drysau a blaen siopau; newidiadau bach i'r siop; a gwell hygyrchedd. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **towncentres@valeofglamorgan.gov.uk**.

## Rhaglen Grant Carbon Isel BBaCh

Mae'r **Rhaglen Grant Carbon Isel BBaCh** yn cael ei hariannu drwy'r Gronfa Twf Leol, ac mae'n darparu grantiau cyfalaf i helpu busnesau bach a chanolig i fuddsoddi mewn technolegau ynni carbon isel fel solar a phympiau gwres. Mae'r grant yn talu hyd at 50% o gostau cymwys y prosiect, gyda grantiau'n amrywio o £1,000 i £20,000. I wneud cais am y gronfa, cyflwynwch **ddatganiad o ddiddordeb**.

## Grant Busnes Newydd a Thwf Busnes y Fro

Mae'r **Fwrsariaeth Busnes Newydd a Thwf Busnes y Fro** yn cael ei hariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol. Mae Cynllun Bwrsariaeth Busnes Newydd a Thwf Busnes y Fro yn darparu bwrsariaethau o hyd at £7,500 ac mae 20% o arian cyfatebol yn ofynnol. Mae ar gael i unigolion, grwpiau a busnesau yn eu cyfnod cynnar sy'n bwriadu cychwyn, gweithredu neu dyfu busnes neu fenter gymunedol newydd ym Mro Morgannwg. Mae cymorth a chefnogaeth helaeth hefyd yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r fwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at: **VSUBursary@valeofglamorgan.gov.uk**, ac i wneud cais am y fwrsariaeth, cwblhewch **ddatganiad o ddiddordeb**.

## Wrecsam

### Cymorth cyffredinol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi busnesau cyn cychwyn yn ogystal â'r rhai sydd eisoes yn masnachu neu'n dymuno adleoli i Wrecsam. Gellir gofyn am apwyntiadau gyda'r tîm Busnes a Buddsoddi.

Gwefan: **https://www.wrecsam.gov.uk/services/busnes**

Ffôn: 0197 829 8990

E-bost: **Ffurflen Ymholiad**